# CYNGOR CYMUNED LLANLLECHID
# LLANLLECHID COMMUNITY COUNCIL


| | |
|---|---|
| Clerc/ *Clerk* | 26 Stryd Fawr |
| **Caroline Jones** | Bethesda |
| 01248 602131 | Gwynedd |
| cyngorLlanllechid@ogwen.org | LL57 3AE |


**Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol mis Ebrill a gynhaliwyd ar nos Iau yr 16fed o Ebrill 2026 am 7yh yn Festri Capel Bethlehem, Talybont**

**1. Presennol**

**Ward Llanllechid Isaf**
Y Cynghorydd Rhydian Williams
Y Cynghorydd Lowri Evans
Y Cynghorydd Evan Jones
Y Cynghorydd Geraint Hughes
Y Cynghorydd Robin Williams

**Ward Llanllechid Uchaf**
Y Cynghorydd Dafydd Jones

Ddim yn bresennol Y Cynghorydd Wyn Bowen Harries ac Y Cynghorydd Alun Thomas.

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Y Cadeirydd, Y Cyng. Rhydian Williams.

**2.Ymddiheuriadau**

Y Cynghorydd Kevin Williams

**3. Cofnodion**

Penderfynwyd derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 12fed o Fawrth 2026.

**4. Materion yn codi o'r cofnodion**

**4.1 Arwyddion Maes y Groes –** Gohebiaeth gan Meirion MacIntyre-Huws, 10-3-26
Mae Priffyrdd wedi addo gosod yr arwydd yn yr wythnosau/mis neu ddau nesaf.

**4.2 Tyllau yn y ffordd a dwr yn codi Lôn Aber Ogwen–** Y Clerc wedi wedi siarad gyda Mr Ian Morgan, Cyngor Gwynedd ar yr (11/9/25). Dim diweddariad, dal ar y rhestr waith.

**4.3 Diffyg biniau ar lwybr beicio Wîg a diffyg bin yn y Gilfan gyferbyn ar yr A55 –** Y Y Cyng Rhydian Williams am ymweld a'r safle a tynnu lluniau.

**4.4 Terfyn Cyflymder Lon Wig -** Siân Gwenllian, Aelod o'r Senedd dros Arfon - wedi ysgrifennu at Cyngor Gwynedd yn gofyn am diweddariad.

**4.5 Sedd Wag Llanllechid Uchaf –** Dim diweddariad

**4.6 Arwydd Llwybr Tanybwlch –** Arwydd newydd wedi ei gosod. **Tynnu** oddi ar y cofnodion.

**4.7 Lôn Goed –** Lôn wedi culhau a drain wedi gordyfu – Ebost gan Ian Morgan 11-3-26 Arolygwr ffyrdd am daro golwg. Preifat yw'r mwyafrif o gloddiau sydd gyfochrog a'r rhwydwaith ffyrdd cyhoeddus. Mae tyfiant o'r cloddiau fod wedi cael eu torri fel rhan o gylch gwaith cynnal y tir berchnogion lleol. A hynny dros gyfnod y gaeaf tra mae'r cyfyngiadau tymor nythu ddim mewn lle.
Y Clerc i ailgysylltu gyda Mr Morgan yn egluro fod y coed dros y clawdd.

**5. Adroddiad Cyngor Sir, Y Cyng Dafydd Meurig.**

Dim adroddiad.

**6. Taliadau**

Awdurdodwyd y canlynol;

| | | |
|---|---|---|
| Partneriaeth Ogwen | Cyfraniad at gostau Llyfrgell Cymunedol 1/10/25 – 31/3/26 | £760.90 |
| DE Williams | Torri Coeden peryglus Talybont | £840 |
| Partneriaeth Ogwen | Costau clercio Ebrill 26-Medi 26 | £5,393.84 |

Cyfrif Mynydd

| | | |
|---|---|---|
| Partneriaeth Ogwen | Gwasanaeth Clercio Mynydd 25-26 | £1782.28 |

**7. Y Mynydd**

**7.1 Cwt Dafydd Ross** - Y plac wedi ei chwblhau. Penderfynwyd ddefnyddio rhodd Dragon's back i dalu am y plac. Y Cyng Robin Williams wedi trefnu cael ysgythru y llechen. Bydd angen trefnu gosod ar y cwt. Dim diweddariad.

**7.2 Merlod –** Abbie Edwards wedi trefnu cyfarfod i drafod Y Merlod, Nos Fawrth 19 fed o Fawrth.
Adroddiad gan Abbie, mae grwp o 14 o borwyr a rhanddeiliaid lleol wedi penderfynu dod at eu gilydd i ffurfio Cymdeithas Merlod Mynydd Llanllechid.
Maent dal yn y broses o benodi swyddogion i'r Gymdeithas ac yn cynllunio i gyfarfod nesaf ym mis Mehefin yn y Clwb Rygbi yn ol gofynion y grwp.

Gofynwyd os oes diddordeb gan unryw aelod o’r cyngor i ymuno yn y cyfarfod nesaf.

Y Clerc i gael eglurhad

- Beth fydd cyfansoddiad y gymdeithas?
- Syd mae Abbie yn rhagweld perthynas rhwng y Cyngor Cymuned a'r gymdeithas?
- Beth fydd cyfrifoldebau y Cyngor Cymuned?

**8. Cae Peldroed/Cae Chwarae Talybont**

- Y Clerc wedi cysylltu gyda Mr Llifon Foulkes, Cyngor Gwynedd am feinciau i’r cae chwarae. Mae'r meinciau ar gael i'w casglu.
- Mae coeden ar ochr y cae pêl-droed wedi ei dorri.
- Derbynwyd cwyn gan drigolyn Talybont am leoliad ac edrychiad y cwt ar y cae peldroed. Cafwyd cyfarfod is-bwyllgor, a draffwyd ymateb. Cytunwyd ar yr ymateb, Y Clerc i anfon.
- Roedd ymateb y cyhoedd i'r holiaduron yn wael. Trafodwyd ffyrdd o wella'r ymateb.
    - Creu holiadur mwy syml
    - Defnyddio AI i greu llun o’r prosiect wedi'i gwblhau
    - Mynychu Sioe Ameathyddol/Carnifal gyda holiaduron- Y Clerc i holi Partneriaeth Ogwen
    - Mynd drws i ddrws

**9. Cyllid Blynyddol**

Cyflwynodd Y Clerc yr adroddiad ariannol blynyddol. Penderfynwyd derbyn a chadarnhau yr adroddiad.

**10. Penodi Archwilydd Mewnol**

Y Cyngor yn hapus i benodi Cyngor Gwynedd i gynnal yr archwiliad mewnol.

**11. Yswiriant**

Dyddiad adnewyddu yswiriant 1/6/26. Yswiriwr presennol, Zurich.
Trafodwyd anghenion penodol y Cyngor. Penderfynwyd adnewyddu'r polisi gyda Zurich.

**12. Pwyntiau a godwyd Awdit 2025**

• Ni chyhoeddodd y Cyngor gynllun hyfforddi - Penderfynwyd drafftio cynllun
• Methiant i gyhoeddi ei gofrestr o fuddiannau aelodau – Ffurflenni wedi dosbarthu i’w cwblhau gan aelodau.
• Gwybodaeth angyflawn yn yr Cofrestr asedau – Clerc i gwblhau y cofrestr.

**13. Gohebiaeth**

Dim i drafod

**14. Adroddiadau gan Gynrychiolwyr**

Mynychodd Y Cyng Lowri Evans gyfarfod blynyddol Partneriaeth Ogwen. Cafwyd grynodeb o ddatblygiadau yr hen bost. Gan gynnwys cynlluniau y llety ar y llawr uchaf. Y Clerc i ysgrifennu at y bartneriaeth yn gofyn i roi blaenoriaeth i gartref parhaol.

**15. Ceisiadau a phenderfyniadau Cynllunio**

**C24/1128/21/CC**
Ogwen Bank, Bethesda
Cais i ymgymryd â gwaith i goed sy'n destun Gorchymyn Gwarchod Coed
**Penderfyniad** Gwrthodwyd

**C25/0908/21/LL**
Bronydd isaf, Llanllechid
Cais i godi uned storio amaethyddol
**Penderfyniad** Caniatawyd gyda amodau

**C26/0083/21/CC**
Ogwen Bank, Bethesda
Cais i waith i goed sy'n destun Gorchymyn Gwarchod Coed
Gwrthwynebiad ar sail y nifer o goed sydd wedi ei thorri yn flaenorol
**Penderfyniad** Ar y gweill

**Ceisiadau Newydd**

Dim

**16. Materion Brys/Eraill**

Cais gan Bartneriaeth Ogwen i'r Cyngor ystyried ysgrifennu llythyr yn cefnogi ei cais loteri Pawb a'i Le ar gyfer ehangu gwasanaethau Hwb Ogwen a Thrafnidiaeth Cymunedol. Y Clerc i ysgrifennu llythyr yn cefnogi.

**Materion blaenorol**

Shaky bridge – Ffens wedi torri - wedi adrodd i Gyngor Gwynedd Mae Llwybr Troed 34 mewn cyflwr gwael – Y Clerc wedi adrodd i Gyngor Gwynedd.

**17. Adroddiad Llais Ogwan**

Dim i adrodd mis yma

Arwyddwyd gan y Cadeirydd ......................................................... Dyddiad ..................................